BRIFF POLISI CLWSTWR RHIF 5

# *ARLOESI AR GYFER SECTOR CYFRYNGAU CYNHWYSOL AC AMRYWIOL*

RÔL YMCHWIL A DATBLYGU YNG NGHYMRU: CANFYDDIADAU'R CLWSTWR

Mate Miklos Fodor, Sally Griffith, Olaoluwa Alatise, Marlen Komorowski, Sara Pepper, Justin Lewis a Ruxandra Lupu

Tachwedd 2022

## YNGLŶN Â'R ADRODDIAD

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r rhaglen Clwstwr, prosiect pum mlynedd gyda'r nod o roi arloesi wrth wraidd cynhyrchu cyfryngau yn y De. Mae Clwstwr yn awyddus i adeiladu ar lwyddiant de Cymru o ran creu cynnwys creadigol drwy roi ymchwil a datblygu wrth wraidd y broses gynhyrchu.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:


CLWSTWR

Neuadd y Ddinas
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3ND
Ffôn: 029 2251 1434
Ebost: clwstwrcreadigol@caerdydd.ac.uk
Twitter: @ClwstwrCreu
www.clwstwr.org.uk

# Cynnwys


Cynnwys ..... 2

Cyflwyniad ..... 3

Polisi ac ymchwil gyfredol i sicrhau bod sector y cyfryngau'n fwy amrywiol a chynhwysol ..... 3

Y DU ..... 3

Cymru ..... 5

Trosolwg o sefydliadau a mentrau yng Nghymru a'r DU ..... 7

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn adnodd i ddatblygu sector y cyfryngau drwy arloesi ..... 8

Amrywiaeth yn sector y cyfryngau yn Ninas-Ranbarth Caerdydd ..... 8

Dysgu o raglen Clwstwr ..... 11

Sicrhau diwylliant o arloesedd cynhwysol yn y sector creadigol ..... 14

CASGLIAD ..... 17

Beth sydd gan y dyfodol i'w gynnig? ..... 17

# Cyflwyniad

Mae cynhwysiant, yr angen am amrywiaeth a chydraddoldeb o ran mynediad at gyfleoedd yn ystyriaethau byd-eang. Mae cynwysoldeb a thegwch yn rhan o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, ac, yng Nghymru, maent wedi'u hymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.[1]

Mae'r rhaglen Clwstwr wedi ymdrechu i gyfuno nodau economaidd a chymdeithasol drwy greu twf amrywiol a chynhwysol gwirioneddol drwy gyfres o fentrau Ymchwil a Datblygu yn y sector diwydiannau creadigol a'r cyfryngau yng Nghymru. Nid yw'r nodau hyn yn anghydnaws: mae ymchwil yn dangos bod amrywiaeth yn y sector y cyfryngau'n golygu enillion cynhyrchiant sylweddol, gan gynyddu cyfraddau cadw talent, cyrhaeddiad a chreadigrwydd wrth agor marchnadoedd newydd posibl.[2]

Mae'r Briff Polisi hwn yn adolygu rhai o'r mentrau cyhoeddus a phreifat presennol yn y DU ac yng Nghymru, sy'n meithrin Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), ac mae'n adrodd ar ganlyniadau ein hymchwil meintiol ar amrywiaeth yn y sector diwydiannau creadigol a'r cyfryngau. Rydym yn cynnwys tystiolaeth ar sut y gall Ymchwil a Datblygu hybu EDI yn seiliedig ar ddysgu o'r rhaglen Clwstwr. Yn olaf, rydym yn adeiladu ar y tirlun polisi a'n dadansoddiadau meintiol i awgrymu cyfeiriadau ar gyfer ein gwaith yn y dyfodol.

# Polisi ac ymchwil cyfredol ar gyfer sector cyfryngau mwy amrywiol a chynhwysol

## Y DU.

Ar lefel y DU, mae cyrff creadigol a chyfryngau cenedlaethol wedi cydnabod yr angen am fwy o atebolrwydd, gan gyhoeddi strategaethau a pholisïau wedi'u hategu gan ymchwil newydd, targedau ar gyfer newid a gwella arferion. Mae hyn yn cynnwys **UK Research and Innovation (UKRI)** ac **Innovate UK**, sy'n ymwneud ag adeiladu sector creadigol mwy cynhwysol ac arloesol

1 https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

2 E.e. gweler Booyens, I. (2012, Mawrth). Creative industries, inequality and social development: developments, impacts and challenges in Cape Town. Yn Urban Forum (Cyf. 23, Rhif 1, tt. 43-60). Springer Netherlands

ar gyfer y DU a datblygu adnodd cynyddol o ddata amrywiaeth, pecynnau cymorth ac arfer da.[3]

Mae adroddiad Creative Majority 2021 **APPG (All Party Parliamentary Group) for Creative Diversity's** yn canolbwyntio ar degwch yn y gweithlu, gan amlygu'r rhwystrau rhag cyfleoedd o ran cyflogaeth ac arweinyddiaeth ac mae'n cynnwys argymhellion i amrywiaeth o sefydliadau cyhoeddus.[4] Mae'r adroddiad yn galw am fwy o uchelgais, hygyrchedd, y gallu i addasu, ac atebolrwydd.

Gan ganolbwyntio ar wella profiad arddangoswyr ffilm, talent gwneud ffilmiau a'u cynulleidfaoedd, mae'r fenter DU gyfan, **Inclusive Cinema**[5], a ddatblygwyd gan Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm y BFI (FAN) a dan arweiniad Canolfan Ffilm Cymru, yn cynnig hyfforddiant ymarferol, cyngor a phecynnau cymorth i ehangu cyfranogiad mewn sinema, ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol a thalent sy'n gweithio yn y diwydiant. Cyflwynodd undeb y diwydiannau creadigol, **BECTU,** gynllun peilot ar gyfer Hwyluswyr Llesiant i weithio ar y set yn ystod cynyrchiadau i wella iechyd meddwl mewn cynyrchiadau ffilm a theledu.[6]

Cyhoeddodd y **Social Mobility Commission (SMC),** corff cyhoeddus anadrannol ymgynghorol a noddir gan Swyddfa'r Cabinet, Becyn Cymorth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y Diwydiannau Creadigol yn 2021.[7] Mae'r pecyn cymorth yn adnodd ar gyfer mentrau micro, bach a chanolig yn y diwydiannau creadigol sydd am gynyddu amrywiaeth economaidd-gymdeithasol staff.[8]

---

3 https://www.ukri.org/what-we-offer/supporting-healthy-research-and-innovation-culture/equality-diversity-and-inclusion/

4 Wreyford, N, O'Brien, D, a Dent, T (2021). Creative Majority: Adroddiad APPG ar gyfer Amrywiaeth Greadigol ar 'Beth sy'n Gweithio' i gefnogi, annog a gwella amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn y sector creadigol. Adroddiad ar gyfer y Grŵp Seneddol Hollbleidiol dros Amrywiaeth Greadigol, t. 15.

5 https://inclusivecinema.org/

6 Mae cwmnïau cynhyrchu o Gymru'n cael eu hannog i gymryd rhan mewn cynllun peilot Hwyluswyr Llesiant i wella iechyd meddwl mewn ffilm a theledu - https://bectu.org.uk/news/welsh-production-companies-encouraged-to-take-part-in-wellbeing-facilitator-pilot-to-improve-mental-health-in-film-and-tv?s=well%20being%20facilitators&f=allBectu

7 https://www.gov.uk/government/publications/socio-economic-diversity-and-inclusion-toolkit-creative-industries

8 Social Mobility Commission, Socio-economic diversity and inclusion Employers' Toolkit: Cross-industry edition, diweddarwyd Gorffennaf 2021, t. 8.

Mae'n ofynnol bod **Ofcom** (yr awdurdod rheoleiddio a chystadleuaeth ar gyfer darlledu yn y DU) yn cymryd camau priodol i hybu cyfle cyfartal yn achos cyflogaeth a hyfforddiant/ailhyfforddiant gan y darlledwyr teledu a radio a reoleiddir ganddo (Adran 27 o'r Ddeddf Cyfathrebu).[9] Mae'r ddarpariaeth hon yn gofyn i ddarlledwyr teledu a radio (gan gynnwys BBC, ITV, Channel 4 ac S4C) hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn eu gweithrediadau.

Mae corff cynyddol o ymchwil hefyd ar amrywiaeth yn y sector creadigol. Ers ei sefydlu yn 2018, mae **Creative Industries Policy & Evidence Centre (PEC)** wedi gwneud amrywiaeth a chynhwysiant yn un o'i naw blaenoriaeth, gan gynhyrchu mwy nag 20 o adroddiadau am gyflwr presennol amrywiaeth a chynhwysiant yn niwydiannau creadigol y DU.[10] [11]Mae **Representology** yn gyfnodolyn academaidd newydd (a ddatblygwyd ar y cyd rhwng Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Dinas Birmingham[12]), sy'n cyhoeddi ymchwil ar EDI yn sector cyfryngau'r DU.

## Cymru

Mae nifer cynyddol o sefydliadau a mentrau yng Nghymru'n datblygu arferion da o ran EDI yn sector y cyfryngau. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n torri tir newydd, yn alinio Cymru ffyniannus a chydnerth â chymunedau cydlynus mwy cyfartal ac iachach.[13]

Mae **Llywodraeth Cymru** — drwy **Gymru Greadigol** — wedi gwneud hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb ar draws y sector creadigol yn un o'i blaenoriaethau.[14] Gyda chefnogaeth Cymru Greadigol,[15] nod **Cyswllt Diwylliant Cymru** yw datblygu rhwydwaith pwrpasol ar gyfer cymunedau ethnig amrywiol sy'n gweithio yn y maes ffilm a theledu.[16] Mae'r prosiect

9 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/21/contents

10 https://pec.ac.uk/research/diversity-and-inclusion

11 Prifysgol Dinas Brimingham, Sefydliad y Cyfryngau a Saesneg, Representology: The Journal of Media and Diversity.

12 https://www.cardiff.ac.uk/journalism-media-and-culture/research

13Adalwyd o: https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

14 Llywodraeth Cymru: Blaenoriaethau ar gyfer Sector y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru, t. 4.

15 https://cultureconnect.wales/

16 Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru: Cynyddu cyfleoedd ar gyfer cymunedau ethnig amrywiol ym maes ffilm a theledu.

peilot unigryw hwn yn cael ei arwain gan Watch Africa CIC ac mae'n rhan o bartneriaeth â BBC Cymru Wales, ITV Wales, S4C a Channel 4.

Yn 2020, cyhoeddodd **Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC)** ei Amcanion Cydraddoldeb, gan fonitro ei gynnydd yn barhaus.[17] Gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, mae **Celfyddydau Anabledd Cymru (DAC)** yn[18] gweithio ledled Cymru gyda sefydliadau ac unigolion creadigol perthnasol sy'n cyfrif eu hunain yn anabl. Mae DAC yn darparu cymorth a gwybodaeth i bobl greadigol a chynulleidfaoedd i sicrhau gwell chwarae teg ac i wella mynediad i'r celfyddydau i gyfranogwyr ar bob lefel. Bu Clwstwr yn cydweithio â DAC fel rhan o Collective Cymru i gynhyrchu agenda cynhwysiant radical **GALWG**, fel rhan o ŵyl Unboxed 2022.[19] Ym mis Mehefin 2021, ffurfiodd **ITV Wales** bartneriaeth â **Mencap Cymru**[20] i gael chwalu rhwystrau i bobl anabl sydd am weithio yn y sector teledu a darlledu.

**Mae Ffilm Cymru Wales**[21], yr asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilmiau yng Nghymru, wedi datblygu rhaglen hyfforddi arobryn, Troed yn y Drws[22], sy'n cynnig cyfleoedd i bobl o bob cefndir i ddatblygu eu sgiliau trosglwyddadwy yn yrfaoedd creadigol. Mae hefyd wedi lansio Mindset, rhaglen hyfforddi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl mewn partneriaeth â **ScreenSkills.** [23]

Mae **Canolfan Ddarlledu newydd BBC Cymru Wales** wedi[24] ystyried mynediad ac yn benodol niwro-gynhwysiant drwy gydol y broses ddylunio ac adeiladu. Yr uchelgais oedd creu mannau egnïol, lliwgar a chydweithredol a oedd hefyd yn sensitif i niwroamrywiaeth. Cefnogwyd y dull gan fenter niwroamrywiaeth y BBC ei hun, BBC Cape, gan adeiladu ar ei becyn cymorth ar gyfer hygyrchedd gwybyddol.

---

17 Cyngor Celfyddydau Cymru: Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2020-24, t. 5.

18 Dewis.Cymru: Celfyddydau Anabledd Cymru, 3 Mawrth 2022

19 https://clwstwr.org.uk/collective-cymru-led-national-theatre-wales-selected-produce-festival-uk-2022-project

20 https://www.westwaleschronicle.co.uk/blog/2022/06/22/itv-cymru-wales-mencap-cymru-launch-new-partnership-to-break-down-barriers-for-people-with-a-learning-disability/

21 https://ffilmcymruwales.com/

22 https://ffilmcymruwales.com/funding-and-training/foot-door

23 Ffilm Cymru Wales — ein gwaith: Mindset

24 BBC: Niwroamrywiaeth, Canolfan Ddarlledu BBC Cymru Wales

# Trosolwg o sefydliadau a mentrau yng Nghymru a'r DU

## CYMORTH, HYFFORDDIANT, HYRWYDDO YNG NGHYMRU

**Cyswllt Diwylliant Cymru:**
o dan arweiniad Watch Africa CIC gyda phartneriaid darlledu, yn hybu talent ethnig amrywiol i ganfod cyfleoedd yn y sector ffilm a theledu yng Nghymru.

**Celfyddydau Anabledd Cymru:**
mae'n darparu cymorth a gwybodaeth i bobl greadigol a chynulleidfaoedd i sicrhau chwarae teg ac i wella mynediad i'r celfyddydau i gyfranogwyr ar bob lefel.

**Mentrau hyfforddi Ffilm Cymru:**
Mae Troed yn y Drws yn darparu lleoliadau hyfforddi i newydd-ddyfodiaid ar gynyrchiadau ffilm a theledu lleol, yn ogystal â chymorth â hygyrchedd, trafnidiaeth a gofal plant. Mae Mindset yn rhaglen hyfforddi ar ymwybyddiaeth iechyd meddwl sy'n benodol i'r diwydiant sgrin.

**Y Lab:**
Mae partneriaeth rhwng Nesta, y sefydliad arloesi a Phrifysgol Caerdydd yn cynnal nifer o brosiectau arloesi EDI fel Cronfa Her Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a phrosiect HARP.

## MANNAU CYNHWYSOL

**BBC Cymru Wales**
Mae'r ganolfan ddarlledu newydd yn enghraifft dda o ddylunio mewnol cynhwysol sy'n ystyried niwro-gynhwysiant. Roedd y broses ddylunio yn ystyried sut y gall tirnodau, lliw a gwead helpu pobl i ganfod eu ffordd.

## POLISI A PHECYNNAU CYMORTH AR LEFEL UK

**APPG (All Party Parliamentary Group) for Creative Diversity:**
mae'n gweithio ar greu argymhellion polisi ac i ddod â rhanddeiliaid at ei gilydd.

**Sinema Gynhwysol:**
mae'n cyhoeddi astudiaethau achos rheolaidd, yn dadansoddi data a chanllawiau arferion gorau ynghyd â hyfforddiant a rhwydweithio i ehangu cyfranogiad mewn sinema.

**Social Mobility Commission (SMC):**
yn 2021 cyhoeddodd Becyn Cymorth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer busnesau'r Diwydiannau Creadigol.

**Ofcom:**
Corff rheoleiddio gyda chanllawiau ar gyfer amrywiaeth i ddarlledwyr ar-lein ac all-lein.

## MENTRAU YMCHWIL

Mae **Creative Industries Policy & Evidence Centre (PEC):**
wedi sefydlu ei hun fel canolfan ragoriaeth yn y DU ar gyfer ymchwil a thystiolaeth i lywio Polisi'r Diwydiannau Creadigol gyda phwyslais ar ymchwil amrywiaeth a chynhwysiant.

**Representology Journal:**
cyfnodolyn ymchwil ac arferion gorau ar sut i wneud cyfryngau'r DU yn fwy cynrychioliadol o bob carfan o gymdeithas.

**Tabl 1: Mapio detholiad o bolisïau, sefydliadau a mentrau ar gyfer EDI yn y sector cyfryngau yn y DU a Chymru.**

## EDI fel adnodd ar gyfer twf y sector cyfryngau drwy arloesi

Mae nifer o astudiaethau'n dogfennu cydberthnasau clir rhwng amrywiaeth ethnig a hiliol a pherfformiad ariannol ar lefel cwmnïau unigol. Er enghraifft, roedd y cwmnïau cyhoeddus hynny a restrwyd ymhlith y 25 fed chwartel uchaf o ran amrywiaeth ethnig a hiliol mewn swyddi arweinyddiaeth yn llawer mwy tebygol o "guro'r farchnad" drwy sicrhau twf cyflymach ac elw uwch na'u cymheiriaid[25] Mae astudiaethau eraill yn dangos bod ychwanegu menywod at fyrddau llywodraethu wedi cynyddu twf incwm net ac enillion cwmnïau ar ecwiti yn sylweddol.[26] Gan ystyried y canfyddiadau hyn, edrychwyd ar yr amrywiaeth o fewn sector y cyfryngau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd a'n rhaglen Clwstwr gyda'r canlyniadau canlynol.

### Amrywiaeth o fewn Sector Cyfryngau Dinas-Ranbarth Caerdydd

Mae gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd boblogaeth amrywiol, gyda 5.5% o bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (wedi'i ganoli yng Nghaerdydd, sy'n 16% o bobl Du Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig);[27] 24% o bobl sy'n nodi eu bod yn anabl,[28] 20.3% yn siarad Cymraeg[29] ac sy'n cynnwys 7/10 o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.[30]

Mae'r Office of National Statistics (ONS) wedi cynhyrchu data ar ddosbarthiad sectoraidd rhywedd ac ethnigrwydd yn y sector "Gwybodaeth a Chyfathrebu" yng Nghymru. Er nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr o sectorau creadigol, mae'n cynnwys:

---

25 David Rock a Heidi Grant: Why Diverse Teams are Smarter, Harvard Business Review, 2016

26 Imran Javaid: Mae adroddiad Credit Suisse Gender 3000 yn dangos bod menywod yn llenwi bron i chwarter y swyddi ystafelloedd bwrdd yn fyd-eang, Credit Suisse, 2021.

27 https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/Ethnicity-by-Area-EthnicGroup


28 https://statswales.gov.wales/Catalogue/Equality-and-Diversity/Disability/peopleofworkingagewithdisabilities-by-area-disabilitytype

29 https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/annualpopulationsurveyestimatesofpersonsaged3andoverwhosaytheycanspeakwelsh-by-localauthority-measure

30 https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-11/welsh-index-multiple-deprivation-2019-results-report-024.pdf


- Gweithgarwch cyhoeddi (gan gynnwys cyhoeddi llyfrau, papurau newydd, gemau cyfrifiadurol a meddalwedd ymhlith eraill);
- Gweithgarwch cynhyrchu ffilmiau, fideos a rhaglenni teledu, recordio sain a chyhoeddi cerddoriaeth;
- Gweithgarwch rhaglennu a darlledu;
- Gweithgarwch telathrebu;
- Rhaglennu cyfrifiadurol, ymgynghoriaeth, a gweithgarwch cysylltiedig; a
- Gweithgarwch gwasanaethau gwybodaeth.

Mae Ffigur 1 yn dangos bod tua 95% o'r holl bobl sy'n cael eu cyflogi naill ai'n llawn amser llawn neu'n rhan-amser yn y sector Gwybodaeth a Chyfathrebu yn wyn, ffigwr sy'n cynrychioli'r boblogaeth yng Nghymru yn fras.





**Ffigur 1: Cyfansoddiad ethnig cyflogaeth yn sectorau "Gwybodaeth a Chyfathrebu" Cymru, ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol.**

Mae dadansoddiad ethnig o brif ac uwch weithredwyr yn y sectorau hyn (Ffigur 2) yn llai cynrychioliadol, gyda dim ond 3.3% o boblogaethau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.





**Ffigur 2: Cyfansoddiad ethnig prif weithredwyr ac uwch swyddogion yn sector Gwybodaeth a Chyfathrebu Cymru. Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol.**

Mae Ffigur 3 yn dangos bod niferoedd gweddol gyfartal o fenywod a dynion yn gweithio yn y sectorau Gwybodaeth a Chyfathrebu yng Nghymru, er nad yw'r data hwn yn cael ei ddadansoddi yn ôl swyddi lefel uwch.




**Ffigur 3: Dynion a menywod yn y sector Gwybodaeth a Chyfathrebu yng Nghymru**

Cynhaliwyd arolwg o 388 o fusnesau rhwng mis Mawrth 2019 a Rhagfyr 2021 (gan gynnwys cwmnïau a masnachwyr unigol) o'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Gofynnwyd i'r busnesau[31] hyn am gynrychiolaeth, gwahaniaethu, ac allgáu yn y sector.





**Ffigur 4: Dadansoddiad o'r atebion i'r cwestiwn "Mae fy musnes neu rwydwaith busnes yn adlewyrchu demograffeg Cymru yn fras".**

Dim ond 45% o'n hymatebwyr oedd yn cytuno bod cyfansoddiad eu busnes neu eu rhwydwaith busnes yn adlewyrchu demograffeg Cymru (gweler Ffigur 4) sy'n awgrymu canfyddiad o ddiffyg amrywiaeth.

---

31 Mae'r cwestiynau'n olrhain 6 agwedd a'u cynrychiolaeth: i) menywod, ii) pobl o wahanol hil, iii) y gymuned LGBTQ2+, iv) pobl ag anableddau yn y diwydiannau creadigol; Mae'r 2 gwestiwn sy'n weddill yn ymwneud â v) gwahaniaethu yn erbyn grwpiau lleiafrifol a vi) a yw'r gweithlu'n adlewyrchu demograffeg Cymru yn fras (neu beidio). Nododd pob ymatebydd a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r 6 datganiad hyn, e.e. "Mae pobl ag anableddau yn cael eu tangynrychioli yn fy musnes neu rhwydwaith busnes" — a'r pum ateb posibl oedd i) anghytuno'n gryf ii) anghytuno i raddau iii) ddim yn cytuno nac yn anghytuno iv) cytuno i raddau v) cytuno'n gryf.

Roedd tua thraean o'n hymatebwyr (Ffigur 5) yn cytuno bod grwpiau lleiafrifol yn wynebu cyfyngiadau neu wahaniaethu yn y diwydiannau creadigol, gyda chyfran debyg yn anghytuno.




**Ffigur 5: Dadansoddiad o atebion i'r cwestiwn "Mae grwpiau lleiafrifol yn wynebu cyfyngiadau neu wahaniaethu yn y gwaith".**

Mae'r ffigurau hyn, wrth gwrs, yn awgrymog yn unig, gan ddibynnu ar lefelau gwybodaeth a dealltwriaeth. Gall cwmnïau sy'n nodi diffyg amrywiaeth olygu eu bod yn fwy ymwybodol o amrywiaeth fel pwnc, yn hytrach na'u bod yn llai amrywiol.

Er bod diffyg data manylach ar gyfansoddiad y gweithlu creadigol, mae ymchwil ddiweddar yn awgrymu mai un o'r meysydd anghydraddoldeb mwyaf trawiadol yn y diwydiannau creadigol yw ei gyfansoddiad dosbarth cymdeithasol. [32]Awgrymodd adroddiad gan Brook, O'Brien a Taylor (2018) fod gan bob gan bob is-sector creadigol heblaw crefftau "orgynrychiolaeth o'r rhai o darddiad cymdeithasol dosbarth canol uwch, gyda'r rhai o darddiad dosbarth gweithiol yn cyfrif am lawer llai o'r gweithlu". Mae'r awduron yn dadlau bod hyn yn cael ei waethygu gan gyfres o arferion gweithio (fel gwybodaeth sy'n cael ei lledaenu ar dafod leferydd, recriwtio drwy rwydweithiau mewnol a chyflogau isel ar lefel mynediad) sy'n parhau'n gyffredin yn y sectorau creadigol.

## Dysgu o'r rhaglen Clwstwr

Ariannodd Clwstwr 118 o brosiectau arloesi ymchwil a datblygu drwy alwadau agored yn y sector sgrin a'r cyfryngau (a'r diwydiannau creadigol ehangach), gan gydnabod bod arferion cynhwysol yn dod â gwerth masnachol a chymdeithasol i'r economi. Nod y rhaglen felly oedd datblygu cymuned Ymchwil a Datblygu sy'n gynhwysol ac yn gynrychioliadol. Wrth i ddealltwriaeth y rhaglen o arferion da o ran EDI ac arloesi gynyddu, gwelsom gynnydd sylweddol yn amrywiaeth y carfannau a ariannwyd. Yn gyffredinol,

[32] https://www.a-n.co.uk/research/panic-social-class-taste-inequalities-creative-industries/

awgrymodd canlyniadau ein harolwg amrywiaeth fod y carfannau a ariennir gennym o leiaf yn gynrychioliadol o Gymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd o ran rhywedd, ethnigrwydd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth draws.[33] Mae Tabl 2 yn crynhoi'r polisïau a'r arferion a gyflwynwyd i hybu EDI ar draws rhaglen Clwstwr.

Mae Clwstwr wedi cefnogi prosiectau sy'n defnyddio arloesedd i wneud gwahanol fathau o gynnwys yn fwy hygyrch, neu i fod o fudd cyffredinol i fywydau beunyddiol pobl o grwpiau difreintiedig. Mae Tabl 3 yn rhoi trosolwg o nifer o'r prosiectau hyn, gyda phwyslais ar rymuso, adrodd straeon, hygyrchedd, ac amrywiaeth y gweithlu.

[33] Am ragor o wybodaeth, ewch i dudalennau 8 i 16 o'n Hadroddiad Monitro Amrywiaeth, sydd ar gael ar-lein yn https://clwstwr.org.uk/sites/default/files/2021-08/Clwstwr%20Programme%20Diversity%20Monitoring%20Report%201_Final_compressed.pdf

<table>
<tr><th colspan="3">Gweithgaredd Clwstwr EDI</th></tr>
<tr><td colspan="3"><ul><li>Adeiladu tîm mwy amrywiol o arbenigedd a phenodi Swyddog Cynhwysiant penodedig.</li><li>Ariannu mwy o brosiectau dan arweiniad timau amrywiol a gyda'r nod o ehangu cyfranogiad yn y cyfryngau</li><li>Cyhoeddi adroddiadau ac ymchwil</li><li>Sicrhau bod ein strwythurau a'n prosesau yn hygyrch a datblygu strategaethau ymarferol i ehangu cyfranogiad</li><li>Hyrwyddo arferion gorau, astudiaethau achos, rhannu adnoddau a chyfleoedd</li><li>Cynnig hyfforddiant a digwyddiadau ysbrydoledig yn ymwneud â datblygu arferion ymchwil a datblygu cynhwysol.</li></ul></td></tr>
<tr><th colspan="3">Cynnydd</th></tr>
<tr><th>Pobl a phrosesau</th><th>Proffilio arferion da</th><th>Cymorth â phrosiectau</th></tr>
<tr>
<td>Cyflogi Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i weithio gyda'n tîm, ein partneriaid, ein prosiectau a ariennir a'n cymuned ehangach i helpu i lunio a chyflawni ein Strategaeth a'n Cynllun Gweithredu.<br><br>Arallgyfeirio ein tîm drwy baru arbenigedd â phrofiad byw amrywiol gyda'n prosiectau.<br><br>Gweithio ag ymgynghorwyr ar ein prosesau megis gweithdrefnau ymgeisio ac asesu yn ogystal â'n negeseuon.<br><br>Cyflwyno monitro EDI ar gyfer ein tîm ac unrhyw geisiadau neu gomisiynau prosiect a chyhoeddi ein canfyddiadau.<br><br>Cwblhawyd ein Harolwg Gwaelodlin ar y canfyddiad o amrywiaeth y sector. Cyhoeddir y canlyniadau yma.<br><br>Mapio'r sector sgrin a newyddion yng Nghymru'n yn barhaus o ran cyrff strategol perthnasol, diwydiant, academia a mentrau trydydd sector.<br><br>Gwerthusiad o'n gweithgarwch gyda'n prosiectau a'n partneriaid a ariennir o ran EDI.</td>
<td>Proffilio ein hamcanion, ymchwil a phrosiectau sy'n canolbwyntio ar gynhwysiant ar wefan Clwstwr.<br><br>Annog rhwydwaith cydweithredol o ymarferwyr sy'n gweithio i greu sector cyfryngau mwy cynhwysol i Gymru.<br><br>Wedi proffilio ein prosiectau sy'n canolbwyntio ar gynhwysiant mewn digwyddiadau diwydiant gan gynnwys Beyond Conference (2020), Future of Journalism (2021), Media City Bergen's Future Week (2022), ClwstwrVerse (2022) a sesiynau Clwstwr Cipolygon (Mewnwelediadau).<br><br>Cynnig bwrsariaethau i sefydliadau i fynychu cynadleddau rhyngwladol fel Cynhadledd ISE (Barcelona) Minalogic (Ffrainc), Future Week (Bergen), The Creativity World (Stuttgart).<br><br>Cyflwyno ystod o sesiynau hyfforddiant cydraddoldeb dan arweiniad partneriaid sydd â phrofiad uniongyrchol, ar gyfer ein tîm, ein partneriaid, a phrosiectau a ariennir, gyda'r nod o ehangu dealltwriaeth ac annog perchnogaeth ar bob lefel. Roedd y sesiynau'n cynnwys Gwrth-hiliaeth, Dylunio Tosturiol, Hyfforddiant Gweithredu Cydraddoldeb Anabledd, Ymarfer Seiliedig ar Drawma, Rhagfarn ddiarwybod, Deall Awtistiaeth.<br><br>Cyhoeddi adroddiadau sy'n seiliedig ar ddata a gasglwyd gan Clwstwr. Gweithio â phartneriaid fel Cymru Greadigol, Newyddiaduraeth Gynhwysol Cymru, y Sefydliad Materion Cymreig, Ofcom a Phrifysgol De</td>
<td>Wedi cefnogi cwmnïau ac unigolion i ymgymryd â phrosiectau ymchwil a datblygu arloesol sy'n anelu at wneud sector y cyfryngau yng Nghymru yn fwy cyfartal.<br><br>Wedi creu llwybrau hygyrch at gyllid trwy gynnig Labordai Syniadau gyda chyflog a chymorth gofal i alluogi gweithwyr llawrydd i'w mynychu, sesiynau un i un ag aelodau'r tîm cyn ymgeisio mewn lleoliadau ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, yn ogystal â sesiynau gwybodaeth ac adnoddau ar ein gwefan. Gwelwyd cynnydd mewn ymgeiswyr llawrydd yn ogystal ag ymgeiswyr benywaidd a gododd o 22% yn ein galwad ariannu gyntaf, i 50% yn yr ail alwad, ac mae'r cynnydd hwn wedi parhau gyda'n galwadau ariannu wedi hynny.<br><br>Wedi gweithio â'n rhwydweithiau ehangach i godi proffil Clwstwr ac i annog ceisiadau gan grwpiau a chwmnïau heb gynrychiolaeth ddigonol i fynd i'r afael â llinellau ymholi mwy amrywiol. Gwelsom gynnydd o 2% mewn prosiectau sy'n gweithio ar brosiectau sy'n ymwneud â chynhwysiant i 19%.<br><br>Cefnogi prosiectau presennol i archwilio EDI yn eu Hymchwil a Datblygu drwy eu cysylltu ag arbenigedd perthnasol.<br><br>Gan gydnabod bod llawer o gwmnïau'n newydd i Ymchwil a darparwyd cymorth datblygu sgiliau mewn dulliau Ymchwil a Datblygu, datblygu busnes, canfod, diogelu a manteisio ar Eiddo Deallusol a chyngor cyfreithiol.</td>
</tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | Cymru i adeiladu set ddata gydlynol ar gyfer amrywiaeth sector y cyfryngau yng Nghymru. | |

**Tabl 2: Cynllun gweithredu EDI Clwstwr a chyflawniadau hyd yma.**

| GRYMUSO DEFNYDDWYR | | PŴER ADRODD STRAEON | | ARALLGYFEIRIO'R SECTOR | | HYGYRCHEDD | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  Mae Trauma Toggle (a adwaenir hefyd fel New Navigator_yn adnodd seiliedig ar drawma, sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ditradu iaith a sbarduno deunydd i reoli eu defnydd o gyfryngau. | Rescape Innovation Mae Rescape yn datblygu technolegau rhithiol newydd ar gyfer gofal iechyd; mae'n cynhyrchu cynnwys ar gyfer clustffonau VR y gall cleifion eu gwisgo i helpu i leihau eu poen a'u pryder. |  KrystalLowe: Mae Cyflwyno Hunaniaethau Unigol yn set o adnoddau cyfryngau newydd sy'n rhannu straeon dilys, hygyrch a pherthnasol sy'n ennyn diddordeb cynulleidfaoedd sy'n cael eu tanwasanaethu a'u tangynrychioli ar hyn o bryd. |  Datblygodd Golwg adran ddemocratiaeth eu gwefan newyddion Golwg360, gan dargedu'n benodol bobl ifanc 16 oed sy'n pleidleisio am y tro cyntaf. |  Mae Divergent Emergent yn ddatrysiad sy'n seiliedig ar gymwysiadau ar gyfer recriwtio, sy'n galluogi pawb i rannu eu profiadau, eu sgiliau, eu doniau a'u gofynion mynediad, mewn ffordd gynhwysol, hygyrch ac amlgyfrwng. |  Mae Voice Wales eisiau ymchwilio a datblygu asiantaeth ffotograffau arloesol ar gyfer diwydiant newyddion Cymru. Byddwn yn arddangos delweddau o ansawdd uchel y gellir eu trwyddedu neu eu gwerthu i gyfryngau eraill yng Nghymru, y DU a'r byd. |  Creodd Taking Flight Theatre berfformiad promenâd gan ddefnyddio cynnwys theatr rithwir rhyngweithiol a synhwyrol, y gall y cynulleidfaoedd mwyaf ymylol ac sydd wedi'u hesgeuluso fanteisio arno. |  Mae Mapped Out (Linus Harrison) yn set o strategaethau gweledol ar gyfer gwneud newyddion prif ffrwd yn fwy hygyrch a chynhwysol, gan ddefnyddio cyflwyniad gofodol a storïau. |
|  Mae Life lab (Martha Stone Prod.) yn gêm gymdeithasol drawsnewidiol sy'n seiliedig ar stori sy'n mynd i'r afael ag effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod er mwyn archwilio ar-lein sut y gallai cymuned wydn, seiliedig ar drawma edrych. |  Mae Goggleminds yn defnyddio gemau mewn realiti rhithwir i greu datrysiadau hyfforddiant hwyliog, sy'n seiliedig ar wyddoniaeth ar gyfer y sector gofal iechyd. |  Mae Laku Neg yn sianel glyweledol gynaliadwy o ddeunydd archif sy'n casglu ac yn rhannu straeon diaspora a brodorion Affrica ar sgrin. |  Mae Y Pod yn wasanaeth podlediadau mewn iaith leiafrifol sy'n ei gwneud yn haws i ganfod podlediadau drwy gasglu'r holl bodlediadau Cymraeg ynghyd mewn un lle. |  Mae Ffilm Gynhwysol (Hijinx) yn gyfres o gynhyrchion ac adnoddau i gynorthwyo'r diwydiannau sgrin i weithio'n fwy cynhwysol, ar draws y gadwyn gynhyrchu gyfan. |   Nod Menter Ystafell Newyddion y Bobl yw adeiladu pŵer cymunedol drwy newyddiaduraeth. Mae'n buddsoddi mewn arweinyddion ystafelloedd newyddion cymunedol sydd wedi'u hymyleiddio gan y cyfryngau'n draddodiadol. | TINY CITY Mae Yn y Golau (Tiny City) yn fodel newydd o ymgysylltu digidol hygyrch gyda pherfformiadau byw a gwaith digidol creadigol ar gyfer pobl ddall a phobl â nam ar eu golwg. |  Mae Variations through Editing (Jonathan Dunn) yn archwilio ffyrdd o alluogi ffilm i fod yn fwy o offeryn cynhwysol i gynulleidfaoedd byddar a nam ar eu golwg i gael mynediad at berfformiadau, gan ddefnyddio dawns fel pwnc. |
|  Mae Agile Kinetic yn gwella iechyd cymdeithasol trwy ddefnyddio AI i fonitro iechyd cyhyrysgerbydol cleifion. |  Mae Connect to Care yn edrych ar gyfleoedd ar gyfer technoleg sgrin newydd i wella ansawdd gwasanaethau |  Ymchwiliodd a datblygodd Nimble Productions ganolbwynt cynnwys pêl-droed i fenywod sy'n cynnwys sianeli digidol a | Film Hub Wales Canolfan Ffilm Cymru CHAPTER Bu Canolfan Ffilm Cymru yn ymchwilio ac yn datblygu'r ffyrdd gorau o gyflwyno neges glir ar gyfer y genhedlaeth ddigidol i gynyddu |  Mae The Journey yn datblygu platfform codi arian mewn fformat gemau fideo, gan gefnogi elusennau ffoaduriaid, digartrefedd ac iechyd. | TRIONGL Bu Triongl Cyf yn edrych ar y bylchau yn y farchnad deledu ddwyieithog drwy ymchwilio i bosibiliadau economaidd ac allforio | | dragon Mae Dragon Digital yn gwella datblygiad Clustffonau Clyfar, gan symud y tu hwnt i bosibiliadau lleihau sŵn presennol i ddiwallu mwy o anghenion y gynulleidfa. |

| GRYMUSO DEFNYDDWYR | | PŴER ADRODD STRAEON | | ARALLGYFEIRIO'R SECTOR | | HYGYRCHEDD | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | iechyd a gofal a mynediad atynt. | chymdeithasol, gan fanteisio ar y maes twf byd-eang hwn mewn ffordd gyffrous. | ymwybyddiaeth ac apêl cynnwys sgrin Cymru. | | cynhyrchu teledu cefn wrth gefn. | | |

**Tabl 3: Trosolwg o rai o'r prosiectau sy'n cael eu hariannu gan Clwstwr gydag effeithiau EDI.**

## Adeiladu diwylliant o arloesi cynhwysol yn y sector creadigol

Mae'r canlynol yn grynodeb o'r gwersi a ddysgwyd o brofiad Clwstwr yn cefnogi ac yn ariannu arloesedd gyda newid cymdeithasol a diwylliannol fel nodau wedi'u diffinio'n glir. [34]Cynhaliodd PDR (partner consortiwm Clwstwr) weithdy gyda chyfranogwyr yn y rhaglen fel rhan o'r gwerthusiad hwn.

⇒ GAN GYNNWYS BUDDION CYMDEITHASOL O GANLYNIAD I YMCHWIL A DATBLYGU.

Siaradodd un o gyfranogwyr ein gweithdy am yr "**angen i ailfeddwl sut rydym yn mesur llwyddiant Ymchwil a Datblygu. Ar hyn o bryd: arian wedi'i arbed, cynhyrchion a ryddhawyd, cynhyrchion newydd**. **"** Diffiniodd Clwstwr ganlyniadau buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu o ran buddion economaidd a chymdeithasol/amgylcheddol - a rhoddwyd yr un pwys i'r ddau yn ein meini prawf asesu.

Er bod gwerth Ymchwil a Datblygu yn ddealladwy'n eang o ran gwerth economaidd, mae angen i ni hefyd fesur gwerth cymdeithasol arloesi - yn ogystal â bod yn ymwybodol o wrthdaro posibl rhwng y ddau. Fel y dywedodd un a gymerodd ran yn ein gweithdy: **"Wrth fesur canlyniadau, nid yw Dangosyddion Perfformiad Allweddol Ymchwil a Datblygu a nodau cynaliadwyedd yn cyfateb bob tro**." Felly, er enghraifft, gall rhai mathau o dwf economaidd gael effeithiau amgylcheddol negyddol.

Nid oedd angen allbynnau penodol yn ymwneud ag EDI gan y garfan a ariannwyd gennym; fodd bynnag, mae'n amlwg bod hyn yn rhywbeth i'w ystyried. Fel y nododd un arweinydd prosiect**: "Byddai'n fuddiol cynnwys amcanion EDI a chynaliadwyedd mewn prosiectau Ymchwil a Datblygu o'r cychwyn cyntaf**." Buom yn gweithio gyda phrosiectau drwy gydol eu hymchwil a datblygu i ystyried ein meini prawf cydraddoldeb a helpu prosiectau lle mae'r diffiniad o 'gynaliadwyedd masnachol' yn eang, gan gydnabod, er enghraifft y gall datblygiad unigolyn i rôl 'arbenigol' ddod â buddion tymor hir iddynt hwy - drwy gynnal eu gweithgaredd—ac i'r sector.

⇒ MAE ANGEN MAPIO'R SECTOR CYFRYNGAU.

---

[34] https://www.cardiffmet.ac.uk/pdr/Pages/default.aspx

Fel y dywedodd un o gyfranogwyr ein gweithdy: "**Mae angen sylfaen wybodaeth dda** arnom." Hyd yma, ni wyddom am set ddata debyg i gyfrifiad sy'n dogfennu amrywiaeth ar gyfer y sector creadigol a'r cyfryngau yng Nghymru, ac rydym yn gweithio â phartneriaid i ystyried sut y gallwn lenwi'r bwlch data hwn.

⇒ CYNNIG LLWYBRAU CYNHWYSOL I HELPU GWEITHWYR LLAWRYDD AC ARLOESWYR O GEFNDIROEDD DIFREINTIEDIG.

Esblygodd ein galwadau i ariannu dros amser i greu cyfres o lwybrau i ganiatáu mynediad at ymchwil a datblygu i grŵp mor eang â phosibl. Ein pwynt mynediad cyntaf oedd Labordy Syniadau Clwstwr - sesiynau labordy deuddydd a gynlluniwyd ar gyfer gweithwyr llawrydd a microfusnesau sy'n gweithio yn Ne Cymru gyda'r potensial i ddatblygu syniadau arloesol ar gyfer cynnyrch, gwasanaethau neu brofiadau newydd. Mae'r labordai hyn yn cynnwys gwaith grŵp, cyflwyniadau ac adnoddau eraill a all fod yn arbennig o ddefnyddiol i weithwyr llawrydd, sy'n aml yn teimlo eu bod yn gweithio ar eu pennau eu hunain. Gan sylweddoli y gallai cymryd rhan yn y digwyddiadau hyn fod yn anhygyrch i rai, roedd ein cyfathrebiadau ynghylch y cyfle mor gynhwysol â phosibl, a chynigiwyd cymorth gofal plant a thâl am gymryd rhan.[35]

⇒ CHWALU RHWYSTRAU RHAG CYMRYD RHAN MEWN RHAGLENNI ARIANNU.

Pan lansiwyd Clwstwr, roedd cyllid arloesi ar gyfer y sector creadigol yng Nghymru yn brin. O'n galwad ariannu gyntaf, cydnabuom yr angen i ymestyn ein cyrhaeddiad y tu hwnt i gwmnïau sefydledig sydd eisoes â phrofiad mewn Ymchwil a Datblygu. Roedd ehangu amrywiaeth ein carfan yn flaenoriaeth allweddol wrth i ni fynd ati i groesawu llinellau ymholi newydd mentrus. Roeddem yn cydnabod rhwystrau rhag cymryd rhan mewn cyllid arloesi, yn bennaf y canfyddiad o beth oedd Ymchwil a Datblygu ac ar gyfer pwy roedd wedi'i anelu. Penderfynwyd symleiddio'r broses ymgeisio ar gyfer y cylchoedd cyllido dilynol (gan gydymffurfio â gofynion statudol) a chynnig cymorth un i un i bob ymgeisydd drwy gydol y rhaglen. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, fod gwaith i'w wneud o hyd: nododd un cyfranogwr yn y gweithdy fod "**y broses ymgeisio ynddi ei hun yn sicr yn rhwystr"** a "**bod**

35 https://clwstwr.org.uk/clwstwrideaslab

**gormod o naws academaidd i'r broses ymgeisio, ac nad oedd hynny'n gwneud iddi deimlo'n hygyrch**."

⇒ MAE'N BWYSIG GWNEUD BYRDDAU CYLLIDO A THIMAU SY'N GWEITHIO AR ARIANNU'N FWY AMRYWIOL A CHYNRYCHIOLIADOL YN GYFFREDINOL.

Rydym hefyd yn cydnabod yr angen am amrywiaeth ar bob lefel o dîm ein rhaglen, i gyrraedd talent sydd heb ei gwasanaethu'n draddodiadol, i ddeall amcanion y prosiect ar y cam ymgeisio a chefnogi tîm y prosiect yn effeithiol unwaith y caiff ei ariannu. Fel y dywedodd un cyfranogwr yn y gweithdy: "**Mae'n bwysig gwneud byrddau cyllido'n amrywiol hefyd ac nid o ran hunaniaeth yn unig**."

Mi wyddom fod gwaith i'w wneud o ran adeiladu rhaglen ariannu sy'n hygyrch ac sy'n annog ceisiadau gan unigolion o bob cefndir, ac rydym yn parhau i wrando a dysgu oddi wrth y prosiectau a ariennir gennym, ac ar ymgynghorwyr o'r trydydd sector yn ogystal â chyrff cyllido eraill sy'n wynebu heriau tebyg.

# CASGLIAD

MAE YMCHWIL YN DANGOS, O GYMHARU Â DEMOGRAFFEG GWAELODLIN, NAD OES CYNRYCHIOLAETH DDIGONOL O RAI GRWPIAU YN Y SECTOR CYFRYNGAU, YN ENWEDIG MEWN SWYDDI ARWEINYDDIAETH. MAE LLAWER I'W WNEUD O HYD I GREU SECTOR CYFRYNGAU SY'N CROESAWU AC YN CYNRYCHIOLI CYMUNEDAU CYMRU.

Gyda llesiant cenedlaethau'r dyfodol fel man cychwyn, mae gennym gyfle i ddod â dull cydlynol a chynrychioliadol sy'n arwain y sector at ei gilydd, gan bwysleisio bod cynhwysiant ac amrywiaeth yn asedau creadigol a chynhyrchiol. Yn y Briff Polisi hwn, rydym wedi amlinellu rhai o'r sefydliadau a'r mentrau sy'n meithrin amrywiaeth, wedi'u hategu gan ddadansoddiad meintiol ynghylch agweddau tuag at amrywiaeth yn sector creadigol a'r cyfryngau yng Nghymru. Rydym yn cydnabod y rôl bwysig y mae arloesi'n ei chwarae i wella cynhwysiant ac amrywiaeth. Yn Clwstwr, rydym wedi gweithio â nifer o brosiectau ymchwil gyda'r nodau hyn mewn golwg ac mae deall eu taith arloesol, gan ystyried eu llwyddiannau a'u hanawsterau, yn ein helpu i greu map ar gyfer y dyfodol.

## Beth sydd gan y dyfodol i'w gynnig?

Mae Clwstwr yn annog twf tymor hir, cynaliadwy, cynhwysol ac arloesol. Er bod Clwstwr wedi cyfrannu'n sylweddol at gydnabod a defnyddio arferion Ymchwil a Datblygu ymhlith busnesau cyfryngau, gwyddom fod heriau cynhenid yn deillio o'r diffiniad cul canfyddedig o ymchwil a datblygu. Rydym yn cydnabod bod gwaith i'w wneud o hyd o ran mesur gwerth ychwanegol Ymchwil a Datblygu ac ailasesu ei benodoldeb yn sector y cyfryngau.

Rydym yn gwahodd y darllenydd i ymgynghori â'n gwefan (https://clwstwr.org.uk/) ar brosiectau y mae Clwstwr wedi'u cefnogi ac i gysylltu â ni i ymgysylltu â ni ar raglen Media Cymru (https://media.cymru/), a ddechreuodd yn 2022.



## Cysylltwch â

Dr. Mate Miklos Fodor

Cydymaith Ymchwil @ Clwstwr
fodorm@cardiff.ac.uk

## Cydnabyddiaeth

Cynhyrchwyd y cyhoeddiad hwn gyda chymorth ariannol gan AHRC a Llywodraeth Cymru. Cyfrifoldeb yr awduron yn unig yw ei gynnwys.

© 2022 Clwstwr, rhaglen ym Mhrifysgol Caerdydd. Cedwir pob hawl.

## Dyfyniad a awgrymir

Fodor, M M., Griffith, S., Alatise, O., Komorowski, M., Pepper, S., Lewis, J., a Lupu, R. (2022). Briff Polisi Clwstwr rhif 5 — Arloesi ar gyfer sector cyfryngau cynhwysol ac amrywiol. Rôl Ymchwil a Datblygu yng Nghymru: Canfyddiadau gan Clwstwr. Cyfres cyhoeddiadau Clwstwr, Caerdydd, Clwstwr.